

# Cymorth ar gyfer plentyn sy'n byw gyda chi'n anffurfiol

**Ble y byddai'n debygol y byddant fel arall  
yn cael eu gofalu amdanynt gan Awdurdod  
Lleol**

**Noder bod ffurflen ar wahân ar gyfer hawlwyr Gogledd  
Iwerddon. Mae hon ar gyfer hawlwyr yng Nghymru,  
Lloegr a'r Alban yn unig.**

O 6 Ebrill 2017 bydd cymorth drwy daliadau Credyd Treth Plant, Credyd Cynhwysol neu Gymhorthdal Incwm yn gyffredinol ond ar gael ar gyfer y ddau blentyn cyntaf rydych yn gyfrifol amdanynt. Yn gyffredinol, byddwch yn parhau i gael swm plentyn ar gyfer yr holl blant a anwyd cyn y dyddiad hwnnw.

At ddibenion y ffurflen hon, mae "plentyn" yn golygu unrhyw un o dan 16 oed, neu berson ifanc o dan 20 oed a gofrestrodd ar, a gafodd ei dderbyn neu sydd wedi dechrau addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch (e.e. Safon Uwch) neu hyfforddiant cymeradwy cyn iddynt droi 19 oed.

Mae eithriadau ble mae mwy na dau o blant.

Manylir ar y rhain yn [www.gov.uk/hmrc/ctc-exceptions](http://www.gov.uk/hmrc/ctc-exceptions) and [www.gov.uk/guidance/universal-credit-and-families-with-more-than-2-children-information-for-claimants](http://www.gov.uk/guidance/universal-credit-and-families-with-more-than-2-children-information-for-claimants)

Mae un o'r eithriadau hynny yn berthnasol lle mae plentyn yn dod i fyw gyda chi:

- mewn cytundeb gofalu ffurfiol (er enghraifft, penodiad fel gwarcheidwad – gweler yr adran **Cael cymorth ychwanegol** am restr llawn o'r rhain); neu
- yn anffurfiol, ac mae'n debygol y byddant fel arall yn cael eu gofalu amdanynt gan yr awdurdod lleol.

## Cael cymorth ychwanegol

Efallai y byddwch yn gallu cael cymorth ychwanegol os ydych yn gofalu am blentyn neu blant lle mae'n debygol y byddai awdurdod lleol yn derbyn gofal fel arall.

Os credwch fod hyn yn berthnasol i chi, gallwch wneud cais am yr eithriad hwn trwy:

- darparu tystiolaeth o drefniant gofal ffurfiol. Mae eithriad yn gymwys os oes gennych mewn lle (neu roedd mewn lle hyd at ben-blwydd y plentyn yn 16 oed ac maent wedi byw gyda chi'n barhaol ers hynny) unrhyw rai o'r trefniadau canlynol mewn perthynas â'r plentyn perthnasol:

### **Cymru a Lloegr:**

Gorchymyn Trefniant Plentyn  
Penodiad fel Gwarcheidwad  
Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig  
Hawl i gael Lwfans Gwarcheidwad

### **Yr Alban:**

'Kinship Care Order'  
Penodiad fel Gwarcheidwad  
'Permanence Order' (sy'n rhoi un neu fwy o gyfrifoldebau rhieni a hawliau rhieni i'r hawlydd)  
Hawl i gael Lwfans Gwarcheidwad

### **Gogledd Iwerddon:**

Gorchymyn Preswylio  
Penodiad fel Gwarcheidwad  
Hawl i gael Lwfans Gwarcheidwad

## neu

- cwblhau **Rhan 1** o'r ffurflen isod a gofyn i weithiwr cymdeithasol cofrestredig, y dylech gysylltu â hwy yn rhinwedd eu swydd broffesiynol, i gwblhau **Rhannau 2 a 3**. Mae hyn er mwyn rhoi'r dystiolaeth rydym ei hangen i'ch cefnogi ymhellach.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei chadw'n unol â safonau Diogelu Data. Os ydych yn gymwys i gael y cymorth ychwanegol hwn, ni fydd y rheswm dros yr eithriad yn ymddangos mewn unrhyw hysbysiadau budd-dal yn y dyfodol.

## Sut i gysylltu â gweithiwr cymdeithasol cofrestredig

Os nad ydych eisoes mewn cysylltiad â gweithiwr cymdeithasol cofrestredig, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Os ydych mewn ardal Cyngor Sir, bydd angen i chi gysylltu â'r cyngor hwnnw. Gallwch ddod o hyd i'ch awdurdod lleol drwy fewnbynnu eich cod post yn y ddolen ganlynol [www.gov.uk/find-local-council](http://www.gov.uk/find-local-council)

## Os nad ydych yn llenwi a dychwelyd y ffurflen

Efallai na fyddwch yn derbyn y swm ychwanegol ar gyfer y plentyn neu'r plant oni bai fod un o'r eithriadau eraill yn berthnasol. Caiff y rhain eu manylu yn [www.gov.uk/hmrc/ctc-exceptions](http://www.gov.uk/hmrc/ctc-exceptions) a [www.gov.uk/guidance/universal-credit-and-families-with-more-than-2-children-information-for-claimants](http://www.gov.uk/guidance/universal-credit-and-families-with-more-than-2-children-information-for-claimants)

Os ydych yn hawlydd Credyd Treth Plant neu hawlydd Credyd Cynhwysol, cewch y swm ychwanegol ar gyfer unrhyw blant a anwyd cyn 6 Ebrill 2017. Ni fydd unrhyw drydedd neu blant dilynol a anwyd ar ôl y dyddiad hwn yn derbyn y swm ychwanegol hwn oni bai fod un o'r eithriadau eraill yn berthnasol i y plentyn hwnnw.

Os ydych yn cael anawsterau gyda'r ffurflen hon gweler **Mwy o wybodaeth**.

## **Mwy o wybodaeth**

I gael mwy o wybodaeth am sut i wneud cais am yr eithriad hwn:

**Os ydych yn gwneud cais am Greddyd Cynhwysol** cysylltwch â'ch Rheolwr Achos neu Anogwr Gwaith.

**Os ydych yn gwneud cais am Greddyd Treth Plant** ewch i [www.gov.uk/child-tax-credit](http://www.gov.uk/child-tax-credit) i gael gwybodaeth ac arweiniad pellach, neu ffoniwch y Llinell Gymorth Credyd Treth ar **0300 200 1900**.

**Os ydych yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm**, ewch i [www.gov.uk/income-support](http://www.gov.uk/income-support) i gael gwybodaeth ac arweiniad pellach.

## **Cydraddoldeb ac amrywioldeb**

Rydym yn ymrwymedig i drin pobl yn deg, beth bynnag yw eu hanabledd, ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws trawsryweddol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, oedran, crefydd neu gredoau. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw bryderon.

# Cymorth ar gyfer plentyn a fyddai'n debygol o gael eu gofalu amdanynt gan awdurdod lleol os byddant yn cael eu gofalu amdanynt yn anffurfiol gan yr hawlydd

Cwblhewch y ffurflen hon a'i dychwelyd atom. Bydd hyn yn ein helpu i roi cymorth llawn i chi. Dylech gwblhau **Rhan 1** a gofynnwch i rywun arall gwblhau **Rhannau 2 a 3**.

Dylai **Rhannau 2 a 3** gael eu cwblhau gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig rydych wedi siarad â hwy o'r blaen, neu'n siarad â hwy nawr yn eu rôl broffesiynol am yr amgylchiadau lle rydych wedi cymryd cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn. Bydd angen iddynt gadarnhau os na fyddai'r plentyn hwn yn cael gofal gennych chi, mae'n debygol y byddent yn cael eu gofalu amdanynt gan yr awdurdod lleol.

Ysgrifennwch mewn **inc du** a defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS.

## Rhan 1: Eich manylion

Eich enw

Eich rhif Yswiriant Gwladol

Llythrennau	Rhifau	Llythyren
<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/>

Eich cyfeiriad

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
Cod post

Dylech nawr roi'r ffurflen hon i'r gweithiwr proffesiynol i gwblhau Rhannau 2 a 3.

Ceir canllawiau i drydydd parti yn

[www.gov.uk/government/publications/support-for-a-child-who-is-informally-living-with-you](http://www.gov.uk/government/publications/support-for-a-child-who-is-informally-living-with-you)

## Rhan 2: Manylion cyswllt y gweithiwr cymdeithasol cofrestredig

Enw

Teitl y swydd

Awdurdod Lleol

Rhif Ffôn

Cyfeiriad

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
Cod Post

### Rhan 3: Datganiad gweithiwr cymdeithasol cofrestredig

Yn seiliedig ar y cyfarfod(ydd) rwyf wedi cael gyda'r hawlydd yn ystod fy nyletswyddau proffesiynol, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ar gael i mi, rwyf yn cadarnhau:

Mae'r hawlydd wedi ymgymryd â gofal y plentyn sydd fel arfer yn byw gyda hwy yn anffurfiol.

**a**

Mae amgylchiadau'r plentyn yn golygu, os nad oeddent o dan ofal yr hawlydd, mae'n debyg y byddai awdurdod lleol yn gofalu amdanynt fel arall.

#### Rwyf yn cadarnhau bod

Enw'r hawlydd

cysylltwyd â mi ar

Na

Ydy

Na

Ydy

#### Ynglŷn â'r amgylchiadau y daeth y plentyn i fyw gyda nhw

Enw'r plentyn

Dyddiad geni'r plentyn

Dyddiad y daeth y plentyn i fyw gyda'r hawlydd

Unrhyw wybodaeth arall

**Llofnod**

**Dyddiad**

**Rhif Cofrestru**

Gall Cyllid a Thollau EM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau gysylltu â chi i gadarnhau dilysiad.

## **Beth i'w wneud nawr**

Mae'r hyn rydych yn ei wneud gyda'r ffurflen nawr yn dibynnu ar ba fudd-dal rydych yn gwneud cais amdano.

## **Credydau Treth Plant**

Dychwelwch y ffurflen i:  
Exceptions  
HM Revenue and Customs  
BX9 1HZ

Efallai y byddwch am ofyn am dystiolaeth o'i phostio.

## **Credyd Cynhwysol**

Bydd rheolwr achos wedi dweud wrthyh beth yw'r broses ar gyfer dychwelyd y ffurflen yn ystod eich galwad ffôn pan gawsoch eich cyfeirio i'r ffurflen hon.

Os ydych yn hawlydd Gwasanaeth Llawn rhwch y ffurflen i'ch anogwr gwaith neu fel y cyfarwyddir gan eich rheolwr achos.

Os ydych yn hawlydd Gwasanaeth Byw dychwelwch y ffurflen i:  
Freepost RTEU-LGUJ-SZLG Universal Credit  
Post Handling Site B  
Wolverhampton  
WV99 1AJ

Efallai y byddwch am ofyn am dystiolaeth o'i phostio.

## **Cymhorthdal Incwm**

Rhowch y ffurflen i'ch anogwr gwaith neu anfonwch y ffurflen i'r cyfeiriad y maent yn ei ddweud wrthyh.